Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Cyllideb 2018-19

Tachwedd 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ar-lein: **www.cynulliad.cymru**
E-bost: **cysylltu@cynulliad.cymru**
Ffôn: **0300 200 6565**

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Cyllideb 2018-19

Tachwedd 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comiswn y Cynulliad



# Cynnwys


01. Cyflwyniad ........ 1
02. Dull y Gyllideb 2018-19 ........ 3
03. Yr heriau o'n blaenau ........ 7
04. Cefnogi Busnes y Cynulliad ........ 12
05. Cynlluniau buddsoddi ........ 16
06. Llywodraethu a rheolaeth ariannol ........ 19
07. Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ........ 20
08. Cwmpas y gyllideb ........ 21

Ym mis Gorffennaf 2016, cytunodd Aelodau'r Cynulliad yn unfrydol y dylai enw'r Cynulliad adlewyrchu ei statws cyfansoddiadol fel senedd genedlaethol. Er mwyn rhoi'r penderfyniad hwn ar waith, cynhaliodd Comisiwn y Cynulliad ymgynghoriad â'r cyhoedd rhwng 8 Rhagfyr 2016 a 3 Mawrth 2017. Roedd 61 y cant o'r rhai a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylai'r Cynulliad newid ei enw. Yn ôl yr ymgynghoriad, yr enw gorau ar gyfer cyfleu rôl a chyfrifoldeb y sefydliad ym marn y rhai a ymatebodd oedd: Senedd Cymru / Welsh Parliament.  Bydd y newid yn cael ei gyflwyno fel rhan o raglen ehangach o ddiwygiadau sy'n cael eu trafod yn dilyn trosglwyddo'r pwerau perthnasol o dan Ddeddf Cymru 2017.  Mae'r Comisiwn yn bwriadu cyhoeddi'r ddeddfwriaeth i roi'r diwygiadau hynny ar waith yn 2018.



# 01. Cyflwyniad

## Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i helpu i'w wneud yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar ac yn ddeddfwrfa sy’n cyflawni’n effeithiol ar gyfer pobl Cymru. Ei rôl yw darparu'r staff, yr eiddo a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Cynulliad Cenedlaethol i gyflawni'r swyddogaeth hon.

Defnyddir cyllideb Comisiwn y Cynulliad i dalu am gostau rhedeg Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chostau Cyflogau a Lwfansau Aelodau’r Cynulliad fel y pennir gan y Bwrdd Taliadau annibynnol.

Mae'r gyllideb hon yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r Comisiwn yng nghyd-destun y Pumed Cynulliad sydd yn wynebu heriau helaeth yn sgil pwysau fel gadael yr Undeb Ewropeaidd a thirlun cyfansoddiadol newidiol y Deyrnas Unedig. Darperir cyllidebau dangosol ar gyfer gweddill y tymor Cynulliad er, o ystyried cyfradd y newid a'r heriau a wynebir gan y Cynulliad, mae'n debygol y bydd angen diwygio'r rhain yn nes at yr amser.

Yn ogystal â pharau i ddarparu gwasanaethau rhagorol i Aelodau a phwyllgorau sy'n gweithredu yn yr amgylchedd cymhleth a heriol hwn, mae blaenoriaethau'r Comisiwn yn cynnwys sefydlu Senedd Ieuenctid, trawsnewid y ffordd y mae'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhaglen o drawsnewid digidol i wneud gwybodaeth yn fwy agored ac yn haws ei defnyddio. Mae'r Comisiwn hefyd yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth mewn sawl maes pwysig. Yn dilyn ymarfer ymgynghori cyhoeddus a phleidlais unfrydol yn y Cynulliad yn ein cyfarwyddo i fwrw ymlaen â'r gwaith, y bwriad yw cyflwyno Bil i newid enw Cynulliad Cenedlaethol i Senedd Cymru/Welsh Parliament. Bydd y Comisiwn hefyd yn deddfu i wneud nifer o newidiadau pwysig i agweddau ar sefydliad mewnol y Cynulliad, y bydd Aelodau yn trafod graddau hynny ac yn penderfynu arno yn ystod y cyfnod 2017/18.

Mae'r cyfyngiadau ar allu Aelodau i gyflawni eu gwaith oherwydd y nifer cymharol isel yn dal yn amlwg os nad yn fwy enbyd yn yr hinsawdd bresennol. Mae hyn yn rhoi hyd yn oed mwy o bwyslais ar y Comisiwn i ddarparu cymorth effeithlon ac effeithiol i helpu Aelodau i gyflawni eu swyddi.

I lywio ei gynigion deddfwriaethol, ar ddechrau 2017, sefydlodd y Comisiwn Banel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol. Pwrpas y Panel Arbenigol yw cynghori Comisiwn y Cynulliad ar dri mater craidd: y nifer o Aelodau sydd eu hangen ar y Cynulliad, y system etholiadol fwyaf addas i'w defnyddio i'w hethol a'r isafswm oed pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad. Disgwylir cyhoeddi ei adroddiad yn ystod tymor yr hydref 2017. Bydd unrhyw newidiadau sylweddol i naill ai faint neu gylch gwaith y Cynulliad yn cael eu costio'n llawn a byddent yn debygol o fod angen strategaeth cyllideb gwbl newydd, naill ai ar gyfer diwedd y Pumed Cynulliad neu ddechrau'r Chweched.

Mae'r Bwrdd Taliadau annibynnol yn penderfynu ar lefel yr adnoddau i ddarparu ar gyfer cyflog a phensiynau Aelodau, y gost er mwyn iddynt redeg swyddfa a chyflogi eu staff cymorth eu hunain, gwneud gwaith ymchwil ac ad-dalu costau teithio, llety a threuliau. Mae hon yn elfen sylweddol o'r gyllideb gyffredinol ac mae'n cael ei darparu'n llawn i sicrhau nad oes unrhyw risg i gyllideb weithredol y Comisiwn yn sgil amrywiadau yn y costau yr eir iddynt mewn gwirionedd.

Mae lle yn Nhŷ Hywel o dan bwysau ac mae'r Comisiwn wrthi'n trafod sut i fynd i'r afael â hyn a sut i fodloni gofynion Cynulliadau yn y dyfodol, yn enwedig os gwneir penderfyniad i gynyddu nifer yr Aelodau. Blaenoriaeth y Comisiwn yw chwilio am yr ateb mwyaf cost effeithiol a bydd yn gwneud ei benderfyniad ar sut i fwrw ymlaen ar y sail honno.

Nod Comisiwn y Cynulliad o ran adnoddau a darparu gwasanaeth yw anelu at ragoriaeth ym mhob achos. Defnyddiwyd y term 'o'r radd flaenaf' i ddisgrifio uchelgais y Comisiwn o ran cymorth i bwyllgorau ond ers hynny mae'r term yn cael ei ddefnyddio i nodweddu’r dyhead ar draws pob agwedd ar weithgarwch y Comisiwn. Nod y gyllideb hon yw cynnal yr ethos hwnnw tra hefyd yn cyflawni blaenoriaethau newydd y Comisiwn sydd wedi'u llunio i raddau helaeth mewn ymateb i'r heriau o amgylchedd gwleidyddol dynamig a chan ystyried pwrs cyhoeddus cyfyngedig.

# 02. Dull y Gyllideb 2018-19

Mae dull y gyllideb ar gyfer 2018-19 wedi gwneud darpariaeth ar gyfer costau y gellir eu rhagweld gyda pheth sicrwydd ac mae hefyd yn cynnwys gwydnwch i adlewyrchu'r ansicrwydd sy'n wynebu'r Comisiwn dros y flwyddyn nesaf, o ran effaith pwerau newydd y Cynulliad, y broses o adael yr UE a'r newidiadau cyfansoddiadol ehangach yng Nghymru a'r DU.

Er gwaethaf y pwysau cynyddol hwn a'r gofynion sy'n dod i'r amlwg ers blwyddyn gyntaf y Cynulliad hwn, mae cyllideb weithredol 2018-19 yn cyd-fynd â'r hyn a ragwelwyd yn nogfen cyllideb 2017-18.

Mae cyllideb 2018-19 wedi'i chyflwyno yr un ffordd â chyllideb 2017-18, ac yn hon hefyd, mae rhagamcaniad o'r gyllideb debygol ar gyfer gweddill y Pumed Cynulliad hefyd wedi'i gynnwys.  Dros weddill y Pumed Cynulliad, mae unrhyw gynnydd mewn chwyddiant wedi'i gymhwyso i'r gyllideb weithredol, gan ddefnyddio 2018-19 fel llinell sylfaen.

Mabwysiadodd y Comisiwn agwedd ddarbodus tuag at bennu'r cyllid sydd ei angen, o gofio am sefyllfa'r sector cyhoeddus ehangach.  Mae'r Comisiwn yn ymrwymedig i orfodi rheolaeth ariannol trylwyr a threfniadau llywodraethu cryf wrth reoli'r gyllideb i ddarparu gwasanaethau rhagorol a gwerth am arian.

Mae'r gyllideb, yn ei chyfanrwydd, yn darparu ar gyfer y canlynol;

– gwariant o dan reolaeth uniongyrchol y Comisiwn;

– y gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Cyflog a Lwfansau Aelodau;

– y ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiynau Aelodau o dan bennawd gwariant a reolir yn flynyddol (AME) Trysorlys EM.

Mae'r manylion wedi'u cynnwys yn nes ymlaen yn y ddogfen ynghylch blaenoriaethau buddsoddi ar gyfer 2018-19. Mae'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau yn monitro ac yn rheoli arian sydd ar gael yn barhaus yn ystod pob blwyddyn i sicrhau bod unrhyw waith a wneir yn gyson â nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn ac yn darparu gwerth am arian.

Un newid i'r rheolau cyfrifyddu yn y dyfodol fydd ei gwneud yn ofynnol i brydlesi gweithredu gael eu cydnabod fel asedau yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol a'u bod yn cael eu dibrisio yn dilyn hynny er mwyn cynyddu tryloywder o ran rhwymedigaethau ymrwymedig y sefydliad.  Bydd y newid yn digwydd o'r flwyddyn ariannol 2019-20. Nid yw'r newid wedi'i adlewyrchu yn y ddogfen gyllideb hon, sy'n dangos gofynion adrodd presennol.

Rhwydwaith Anabledd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

EMBRACE

Disability Network of the National Assembly for Wales

Rhwydwaith LGBT Cynulliad Cenedlaethol Cymru

OUT-NAW

LGBT Network of the National Assembly for Wales

Rhwydwaith Hil, Ethnigrwydd a Threftadaeth Ddiwylliannol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

REACH

Race, Ethnicity And Cultural Heritage Network of the National Assembly for Wales

Rhwydwaith Menywod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

INSPIRE

Women's Network of the National Assembly for Wales

Rhwydwaith Gofalwyr a Rhieni sy'n Gweithio Cynulliad Cenedlaethol Cymru

TEULU

Working Parent and Carer Network of the National Assembly for Wales

---

INVESTORS IN PEOPLE | Gold

Stonewall
100 CYFLOGWR GORAU
TOP 100 EMPLOYERS
CYMRU
2017

---

Top Employers for Working Families

LOUDER THAN WORDS

POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE
YN GADARN O BLAID POBL ANABL

---

we're supporting
AGE POSI+IVE

Autism Access Award

The National Autistic Society Cymru
Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru

Gwobr Ystyriol o Awtistiaeth

## Buddsoddi yn ein pobl

Yn ystod blwyddyn gyntaf y Pumed Cynulliad, bu cynnydd yn uchelgais y Cynulliad a'r Comisiwn. Mae'r pwerau a ddarparwyd yn Neddf Cymru 2017 yn galluogi'r Comisiwn i ddeddfu o ran enw, maint, systemau etholiadol a gweithdrefnau'r Cynulliad ac mae'n darparu dulliau i'r Cynulliad ddatblygu deddfwriaeth fwy pellgyrhaeddol, ymateb i bwerau a gadwyd yn ôl a datblygu ei fentrau ei hun. Yn ystod y cyfnod hwn, mae mwy o weithgarwch pwyllgorau a chynnydd ym maint a chymhlethdod y gwaith craffu deddfwriaethol wedi bod yn amlwg. Mae'r Comisiwn hefyd wedi cyhoeddi dwy fenter o bwys ym maes ymgysylltu â'r cyhoedd; sefydlu Senedd Ieuenctid i Gymru, wedi'i chefnogi a'i hariannu gan Gomisiwn y Cynulliad, a sefydlu Tasglu Newyddion a Gwybodaeth Ddigidol. Yn erbyn cyd-destun gwleidyddol ehangach, gan gynnwys gadael yr UE, canolbwynt cynyddol ar ddiogelwch cenedlaethol ac, yn ddiweddarach, etholiad y DU, mae wedi bod yn gyfnod cyffrous a phrysur sydd wedi cael effaith sylweddol ar wasanaethau.

Er mwyn bodloni'r gofyniad statudol i gefnogi a diwallu anghenion yr Aelodau, yn awr ac yn y dyfodol, mewn perthynas ag uchelgais y Cynulliad i ddefnyddio'i bwerau newydd, bydd y Comisiwn yn paratoi cynlluniau buddsoddi i ddatblygu ei allu sefydliadol, gan gadw golwg parhaus ar y gost o ehangu'r gallu hwnnw.

Mae sgoriau ymgysylltu cadarnhaol yr arolwg staff diweddaraf ym mis Gorffennaf 2017, ynghyd ag anrhydeddau allanol, yn dangos pa mor effeithiol yw dull y Comisiwn. Mae gwaith gyda chyflogeion, rhwydweithiau staff a phartneriaid yn yr Undeb Llafur yn sicrhau bod y Comisiwn yn parhau i fod yn gyflogwr rhagorol, gan adlewyrchu ei ddyhead i fod yn gyflogwr o ddewis i bob rhan o'r gymuned.

Mae tair prif gyfarwyddiaeth yn y Comisiwn:-

- Mae Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad yn rhoi cymorth seneddol arbenigol i Aelodau i sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal mewn modd effeithlon ac effeithiol. Mae'n cynnwys y Gwasanaeth Siambr a Phwyllgorau, y Gwasanaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, y Gwasanaeth Cyfathrebu, y Gwasanaeth Ymchwil, y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Trawsnewid Strategol.
- Mae Gwasanaethau'r Comisiwn yn darparu gwasanaethau ysgrifenyddol a chymorth i'r Llywydd, y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr, Comisiwn y Cynulliad a'r Pwyllgor Taliadau. Mae Cymorth Busnes i'r Aelodau (MBS), datblygiad proffesiynol i Aelodau a'u staff, y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi a'r Gwasanaethau Ymwelwyr a Lleoliadau Seneddol newydd yn rhan o'r gyfarwyddiaeth hon hefyd.
- Mae'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau yn darparu cymorth corfforaethol i'r amgylchedd busnes, gan gynnwys Diogelwch, Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau, TGCh, Adnoddau Dynol, Llywodraethu ac Archwilio a Chyllid.

Mae ymarfer cynllunio capasiti bob dwy flynedd yn gofyn i wasanaethau asesu eu staff a sgiliau presennol yn erbyn y blaenoriaethau gwaith sydd eu hangen arnynt i gyflawni, yn ogystal â nodi lle gellir cyfarwyddo adnoddau mewn mannau eraill ar gyfer anghenion sy'n dod i'r amlwg a gwneud y gorau o allbwn cynhyrchiol ein staff.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd cyson yn nifer y staff sydd ei hangen ar y Comisiwn i ateb galw cynyddol y Cynulliad. Mae'r Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Cynulliad ei hun yn craffu ar y broses hon yn drylwyr bob blwyddyn. Mae'r gwaith craffu hwnnw, ynghyd â'r tryloywder o ddydd i ddydd a pha mor agos mae cynifer o wasanaethau'r Comisiwn i Aelodau a phwyllgorau yn golygu bod y Comisiwn yn hyderus bod Aelodau yn deall unrhyw estyniad ac y caiff ei wneud gyda'u cymorth.

Ar yr un pryd, mae’r Comisiwn hefyd yn ymwybodol o gyd-destun ariannol heriol y sector cyhoeddus. Gan ddefnyddio’r un ffigur a gyhoeddwyd ar gyfer diwedd mis Mawrth 2017 fel sylfaen y gwaith cyfrifo, 452 yw nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gaiff eu cyflogi gan y Comisiwn ac, yn ogystal â hyn, mae 18 o swyddi gwag cyfwerth ag amser llawn. Yn y cyd-destun hwn, mae’r Comisiwn wedi gofyn i’r Prif Weithredwr a’r Clerc arwain adolygiad o gapasiti er mwyn cael gwybodaeth ar gyfer trafodaethau am flaenoriaethau a’r adnoddau sydd eu hangen i roi’r rhain ar waith. Mae’r tîm Rheoli yn ystyried gwasanaethau’n barhaus er mwyn medru ymateb yn effeithiol i’r heriau a’r cyfleoedd sy’n codi yn ogystal â gweithio mor effeithlon â phosibl. Bydd yr adolygiad yn helpu i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o’r modd y caiff adnoddau staff eu defnyddio ar hyn o bryd, o’r pwysau y mae’r gwahanol dimau’n eu hwynebu a’r arbedion y gellid eu sicrhau wrth barhau i weithio’n effeithiol. Bydd yr adolygiad yn mynd rhagddo ar y cyd â’r broses o bennu cyllideb 2018-19, yn cynorthwyo i benderfynu sut i flaenoriaethu gwariant yn ystod y flwyddyn honno, ac yn pennu llinell sylfaen ar gyfer y blynyddoedd wedyn. Bydd y Comisiwn yn trafod y casgliadau tua diwedd 2017.

Mae'r cytundeb cyflog staff presennol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2018. Bydd y trafodaethau ar gyfer y cytundeb cyflog nesaf yn dechrau ganol 2017 gyda'r nod o gael cytundeb ar waith cyn dechrau blwyddyn ariannol 2018-19.

# 03. Yr heriau o'n blaenau

## Gadael yr UE a newid cyfansoddiadol

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol, a'i bwyllgorau, yn wynebu heriau heb eu tebyg yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Mae'n rhaid i'r Cynulliad fod yn barod i chwarae rhan lawn o ran goruchwylio’r trafodaethau ar adael yr UE, craffu ar effaith Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (a'r nifer anferth o ddeddfwriaeth bellach fydd yn dilyn), a sicrhau bod llais pobl Cymru yn cael ei glywed.  Bydd y dasg ddeddfwriaethol ar ei phen ei hun yn ychwanegu llwyth gwaith ychwanegol sylweddol, gyda disgwyl cannoedd o offerynnau statudol ychwanegol ac ystod o Filiau San Steffan a fydd angen gwaith craffu trylwyr gan y Cynulliad oherwydd eu pwysigrwydd cyfansoddiadol.

Mae’r gwaith o graffu ar ddeddfwriaeth yn ymwneud â gadael yr UE yn debygol o roi pwysau sylweddol ar Aelodau a staff. Gallai effeithio ar ein gweithdrefnau presennol ac, o ganlyniad, gallai eu rhoi ar brawf. Gallai hefyd olygu newid mawr yn ffocws gwaith Aelodau tuag at graffu ar is-ddeddfwriaeth, Biliau San Steffan, Biliau Cynulliad posibl, a Chynigion Cydsyniad Deddfwriaethol. Mae gan y Pwyllgor Busnes rôl bwysig o ran cynnal goruchwyliaeth o'r effaith ar fusnes y Cynulliad, tra bod Fforwm y Cadeiryddion yn trafod gadael yr UE fel eitem sefydlog ar yr agenda yn ei gyfarfodydd tymhorol, gan gynnwys capasiti'r Cynulliad i ymgysylltu'n effeithiol. Bydd y Comisiwn yn parhau i fonitro datblygiadau i asesu unrhyw ofynion sy'n codi o ran adnoddau.

Mae'r rhaglen hon o ddeddfwriaeth yn ymwneud â gadael yr UE yn digwydd yn erbyn cefndir unigryw o newid cyfansoddiadol sylweddol yng Nghymru. Drwy ddatganoli pwerau i'r Cynulliad a symud tuag at fodel cadw pwerau, rhoddir sail gyfansoddiadol newydd i'r Cynulliad, â chyfrifoldebau newydd pwysig. Disgwylir i'r model cadw pwerau ddod i rym ar ddechrau 2018 ac mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod y Cynulliad yn ddigon parod, a bod cefnogaeth gan staff y Comisiwn, i wneud ei waith craffu hanfodol a'i rôl goruchwylio hanfodol. Mae pwerau codi treth a gweithdrefnau cyllideb yn cael eu cyflwyno yr adeg hon hefyd.

## Adeiladu ar gyfer y dyfodol

Mae gan y Comisiwn rwymedigaeth statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i sicrhau bod gan y Cynulliad eiddo, staff a gwasanaethau sy'n ofynnol at ddibenion y Cynulliad.

Dros yr ugain mlynedd diwethaf, mae'r Ystâd ym Mae Caerdydd wedi dod yn ganolbwynt ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol, ac yn fwy cyffredinol ar gyfer bywyd cyhoeddus Cymru. Mae adeilad y Senedd, Tŷ Hywel ac adeilad y Pierhead wedi dod yn asedau cenedlaethol allweddol sydd bellach yn ganolog i bortread Cymru a democratiaeth Cymru ar y llwyfan rhyngwladol.

Mae'r Cynulliad hefyd yn ymestyn ei swyddogaethau sylfaenol i ymgysylltu â phobl Cymru ac i graffu ar y Llywodraeth yn briodol, drwy gyfnodau o gynnwrf cyfansoddiadol ac economaidd mawr.  Mae'r achos ar gyfer llety ychwanegol yn cael ei lywio gan yr angen i sicrhau y gall ein Hystâd ddarparu cartref priodol i'r Cynulliad, sy'n parhau i esblygu, gan ysgwyddo rhagor o bwerau a chyfrifoldebau.

Gyda rhagor o bwerau datganoledig, ac wrth i’r Cynulliad symud i gyfnod pan nad yw'r DU yn yr Undeb Ewropeaidd mwyach, mae mwy o angen nag erioed am Ystâd sy'n gwella proffil Cymru yn rhyngwladol, yn annog ymgysylltu â'r cyhoedd ac sy'n gwneud gwaith y Senedd yn fwy hygyrch i ddinasyddion Cymru.

Cafodd anghenion llety eu trafod yn gyntaf gan y Comisiwn ym mis Tachwedd 2016, ar y sail bod y gofod o fewn Tŷ Hywel yn dod yn agos i fod yn llawn ac, er y gellir diwallu anghenion byrdymor y

Comisiwn drwy ad-drefnu swyddfeydd, byddai angen ystyried opsiynau eraill ar gyfer y dyfodol. Roedd y Comisiwn yn glir ei bod hi'n hanfodol ein bod yn gwneud y gorau o ddefnydd yr Ystâd presennol.

Mae'r gwaith dichonoldeb cychwynnol a wnaed wedi nodi y byddai angen adeilad o 80,000 - 105,000 troedfedd sgwâr net ac y byddai hynny'n bodloni holl ofynion y Cynulliad. Mae'r manteision i'r Cynulliad yn cynnwys agosrwydd i'r Senedd a Thŷ Hywel, y gallu i gysylltu adeilad newydd yn gorfforol er mwyn darparu cysylltiad diogel, cael llefydd a chyfleusterau sydd wedi'u cynllunio i ategu a gwella'r rhai sydd ar gael yn y Senedd ac i gefnogi amcanion strategol ac o ran ymgysylltu. Bydd yr agosrwydd hefyd yn osgoi'r amhariad o gael swyddogaethau'r Cynulliad wedi'u rhannu dros sawl lleoliad, gan ymestyn gwasanaethau fel diogelwch, rheoli cyfleusterau, TGCh, arlwyo, glanhau a CCTV i'r adeilad newydd yn lle hynny.

Os bydd y Comisiwn yn penderfynu bwrw ymlaen â chais cynllunio am adeilad newydd yna bydd y gwaith dan sylw yn golygu costau. Byddai talu am gostau o'r fath o gyllideb weithredol y Comisiwn yn heriol yn ariannol a byddai'n cyfyngu'n fawr ar y buddsoddiad y mae'r Comisiwn yn eu cynllunio i ddatblygu. Felly, byddai’r Cynulliad, fel y gofynnwyd, yn cyflwyno Memorandwm Esboniadol, fel sy’n ofynnol gan Reol Sefydlog 20.32, i’r Pwyllgor Cyllid cyn gynted â phosibl, cyn gwneud cais am Gyllideb Atodol. Byddai’r Memorandwm hwn yn rhoi manylion yr achos dros adeilad newydd a’r gwaith i’w wneud i baratoi’r cais cynllunio.

## Diwygio trefniadau'r Cynulliad

Mae Deddf Cymru 2017 yn rhoi pwerau i'r Cynulliad fynd i'r afael â rhai materion cyfansoddiadol o bwys. Bydd gan y Cynulliad ymreolaeth dros ei drefniadau mewnol ac etholiadol pan ddisgwylir i ddarpariaethau perthnasol y Ddeddf gychwyn yn 2018.

Gan weithredu ar ran y sefydliad, a phobl Cymru, mae'r Comisiwn yn arwain rhaglen o ddiwygio trefniadau'r Cynulliad i ystyried y ffordd o ran o ddefnyddio'r pwerau hyn i helpu i'w wneud yn ddeddfwrfa gryfach, mwy hygyrch, cynhwysol a blaengar sy'n darparu'n effeithiol i bobl Cymru.

Ym mis Ionawr 2015, daeth Comisiwn blaenorol y Cynulliad i'r casgliad:

> “Gyda dim ond 60 o Aelodau, mae diffyg pŵer yn y Cynulliad Cenedlaethol ond mae gormod o bwysau yn cael ei roi arno”.

Mae'r Comisiwn yn cytuno â'i ragflaenwyr. Fel rhan o'i raglen diwygio trefniadau'r Cynulliad, mae'n arwain gwaith i fynd i'r afael â'r materion capasiti sy'n wynebu'r Cynulliad o ganlyniad i'w maint bychan, ac i benderfynu ar drefniadau etholiadol priodol i'r Cynulliad, gan gynnwys yr isafswm oed.

Mae dylunio systemau etholiadol yn dechnegol iawn sy'n gofyn am arbenigedd sylweddol nad yw ar gael yn fewnol. Er mwyn cael gafael ar arben9igedd o'r fath mewn ffordd amserol a chost effeithiol, ac i sicrhau bod unrhyw gynigion deddfwriaethol sy'n cael eu cyflwyno gan y Comisiwn yn seiliedig ar gyngor cadarn, annibynnol sy'n ddiduedd yn wleidyddol, mae'r Llywydd wedi sefydlu Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad i adolygu'r dystiolaeth a gwneud argymhellion iddi hi a'r Comisiwn. Cadeirydd y Panel yw'r athro Laura McAllister CBE, ac mae'n cynnwys aelodau sydd ag arbenigedd helaeth ym meysydd systemau etholiadol, gwaith a chapasiti Seneddau, sefyllfa gyfansoddiadol y Cynulliad Cenedlaethol, a materion ehangach o ran llywodraethu, gan gynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth ac ymgysylltu.

Gofynnwyd i'r Panel adrodd yn yr hydref 2017, ac adeg honno bydd y Comisiwn yn ystyried cwmpas llawn ei raglen diwygio a'r cynigion deddfwriaethol mae'n bwriadu eu cyflwyno yn 2018, gan gynnwys mynd i'r afael â diwygio unrhyw drefniadau mewnol. Bydd unrhyw gynigion yn cynnwys amcangyfrifon

cadarn o oblygiadau ariannol a goblygiadau eraill unrhyw newidiadau i'r Comisiwn a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys amcangyfrifon o pryd mae'n debygol y bydd unrhyw gostau.

Bydd y rhan fwyaf o waith cwmpasu a datblygu y cynigion deddfwriaethol yn cael eu gwneud gan staff y Comisiwn. Cafwyd arbenigedd drafftio deddfwriaeth arbenigol, gyda chostau yn perthyn i 2017-18 a 2018-19. Gallai rhai costau ychwanegol godi hefyd yn 2017-18 neu 2018-19 i hwyluso mynediad i gyngor arbenigol ar faterion technegol neu i sicrhau bod unrhyw waith ymgynghori a wnaed mewn perthynas â'r rhaglen ddiwygio yn gwbl hygyrch.

## Enw newydd

Fel rhan o'r rhaglen ddiwygio, ac ar sail cytundeb unfrydol gan y Cynulliad ym mis Gorffennaf 2016 y dylai enw'r sefydliad adlewyrchu ei statws cyfansoddiadol fel senedd genedlaethol, ymgynghorodd Comisiwn y Cynulliad â phobl Cymru yn gynharach eleni. Cytunodd 61 y cant o 2,800 o ymatebwyr y dylai'r Cynulliad newid ei enw, ac mai'r enw oedd yn disgrifio rôl a chyfrifoldeb y sefydliad orau oedd: Senedd Cymru / Welsh Parliament.

Cyhoeddodd y Comisiwn ym mis Mehefin 2017 ei fod yn bwriadu deddfu i ailenwi Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru / Welsh Parliament cyn diwedd y Pumed Cynulliad yn 2021.

Mae gan rai o'r bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad bryderon ynghylch costau posibl ar gyfer newid o'r fath. Bydd y Comisiwn yn ystyriol o'r pryderon hyn, ac mae'n bwriadu cynllunio'r newid er mwyn sicrhau bod y gost cyn lleied ag y bo modd, gan newid enw'r Cynulliad yn unig a pheidio â chynnal unrhyw ailfrandio cyffredinol na newid y logo. Wynebir y gost o weithredu'r newidiadau hyn yn 2019-20, gan dybio y derbynnir y Bil yn 2019. Tan y bydd deddfwriaeth i newid enw'r Cynulliad yn weithredol, bydd y Cynulliad yn parhau i gael ei alw yn swyddogol wrth ei enw statudol presennol, sef Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er mwyn osgoi dryswch ac i leihau costau ac anghyfleustra.

## Manteisio ar dechnoleg i drawsnewid darpariaeth gwasanaeth

FySenedd yw prif raglen y Comisiwn ar gyfer trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu i Aelodau a'r cyhoedd gan wneud gwybodaeth am fusnes y Cynulliad yn fwy hygyrch a chynnig profiad mwy atyniadol i bawb drwy gydol y Pumed Cynulliad. Bydd nifer o brosiectau penodol yn rhan o'r rhaglen i wella'r ffordd u mae gwybodaeth yn cael ei chreu a'i rhannau a'r ffordd y manteisir ar y wybodaeth honno, i gynnig gwell gwasanaethau i Aelodau a'r cyhoedd, ac i ymgysylltu â holl ddefnyddwyr drwy ddefnyddio technoleg.

Un o'r prosiectau cyntaf a gyflwynir yw'r datrysiad trawsgrifio a chyhoeddi newydd, sy'n cael ei integreiddio â gwasanaethau eraill o fewn Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad i wneud y gwaith o gynhyrchu Cofnod y Trafodion ("y Cofnod") yn fwy effeithlon, yn gyflymach cael gafael arno ac yn haws i bobl chwilio am y cynnwys sydd eu hangen arnynt.

Mae datrysiad newydd y Swyddfa Gyflwyno yn cael ei ddarparu hefyd, ac fe fydd wedi'i integreiddio â'r datrysiad Cofnod y Trafodion newydd a gwasanaethau eraill Busnes y Cynulliad i'w wneud yn gyflymach ac yn haws i Aelodau a'u staff gyflwyno busnes, cael y gwybodaeth ddiweddaraf am eitemau o ddiddordeb busnes, a chanfod y wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Bydd hefyd yn gwneud y gwasanaeth cyflwyno yn fwy effeithlon. Bydd y datrysiad newydd yn mynd yn fyw yn hydref 2017.

Mae'r rhaglen FySenedd yn rhagweld y caiff rhagor o brosiectau gwella'u cyflwyno, tebyg i'r rheini a nodir uchod, dros weddill oes y Cynulliad hwn, er mwyn gwella profiad y defnyddwyr, gan gynnwys buddsoddi i drawsnewid y wefan. Mae dirfawr angen gwella'r wefan er mwyn ei gwneud yn fwy atyniadol ac yn haws ei defnyddio.

Mae’r Cynulliad yn ymwneud â degau o filoedd o bobl bob blwyddyn ac mae angen iddo fuddsoddi mewn system a all reoli gwybodaeth yn ddiogel ac yn effeithiol gan gynnal deialog â’r rhai sydd â diddordeb yn ei waith. Y nod yw gwella’r modd rydym yn cyfathrebu ac ymgysylltu, a hynny er budd y cyhoedd a gwaith y Cynulliad.

## Creu Senedd Ieuenctid i Gymru

Mae'r cynnig i sefydlu Senedd Ieuenctid i Gymru yn flaenoriaeth fel menter ymgysylltu â'r cyhoedd a nodwyd yn strategaeth Pumed Cynulliad y Comisiwn.

Yn dilyn penderfyniad unfrydol y Cynulliad yn cyfarwyddo'r Comisiwn i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, y nod yw darparu lle democrataidd i blant a phobl ifanc yng Nghymru drafod a dadlau materion o bwys iddyn nhw ac ymgysylltu â'r Cynulliad gyda'u gwaith.

Dechreuodd y gwaith cynllunio ar gyfer y Senedd Ieuenctid ym mis Ionawr 2017 gan gynnwys ymgynghori â thros 5,000 o bobl ifanc i weld sut yr hoffent i’w Senedd Ieuenctid weithio.


Dy Gynulliad

# 04. Cefnogi Busnes y Cynulliad

## Deddfwriaeth

Yn ogystal â sicrhau bod gan y Cynulliad adnoddau i gyflawni'r her ddeddfwriaethol anferthol yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd a gweithredu'r model cadw pwerau newydd, mae uchelgeisiau deddfwriaethol y Comisiwn ei hun heb ei debyg. Ar hyn o bryd, y nod yw deddfu i newid enw'r Cynulliad, ei maint a system etholiadol ac agweddau amrywiol ar ein sefydliad, strwythur a gweithdrefnau mewnol.

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cadarnhau ei fwriad i ddatblygu a chyflwyno ei Fil ei hun i ddiwygio rôl yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae cefnogi deddfwriaeth yn dasg arbenigol a heriol iawn sy'n effeithio ar bob maes y Gyfarwyddiaeth Fusnes – clercio, ymchwil, cyfreithiol a chyfathrebu. Yn ogystal, bydd y newidiadau i'r fframwaith ariannol, yn arbennig y pwerau newydd dros drethiant a symud i broses cyllideb deddfwriaethol, yn effeithio'n sylweddol ar waith y Pwyllgor Cyllid a phwyllgorau eraill y Cynulliad yn gyffredinol, a'r cymorth fydd ei angen arnynt dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Mae'r Comisiwn yn y camau cyntaf o brosiect i ddisodli'r dechnoleg hen a ddefnyddir i reoli Biliau drwy'r broses ddeddfwriaethol – o ddrafftio i welliannau i gyhoeddi. Ar gyfer prosiect o'r raddfa a phwysigrwydd hwn, mae'n debygol y bydd angen cyllid penodol. Daw'r contract presennol i ben ym mis Ebrill 2019 ac, yn dibynnu ar yr opsiwn a ddewisir i fwrw ymlaen â'r prosiect, gallai fod angen cyllid ychwanegol ar y Comisiwn i'w gwblhau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gwmpasu gofynion system newydd a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i bennu sut mae'r prosiect yn mynd yn ei flaen gan y bydd angen iddo fod yn ddatrysiad sy'n addas i'r ddau sefydliad ac yn gallu rheoli'r cynnydd disgwyliedig mewn deddfwriaeth yn y dyfodol.

## Pwyllgorau

Ar ddechrau'r Pumed Cynulliad, crëwyd dau bwyllgor newydd gan wneud y cyfanswm yn 14, o gymharu â 12 a oedd yn weithredol yn y Pedwerydd Cynulliad. Mae gan un o'r pwyllgorau ychwanegol hyn - y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol - gylch gwaith i archwilio'r goblygiadau i Gymru oherwydd i'r Deyrnas Unedig benderfynu gadael yr Undeb Ewropeaidd, gan sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu yn ystod y broses adael, mewn unrhyw berthynas newydd â'r UE ac yn nhrefniadau gwledydd y DU ar ôl gadael ar gyfer materion perthnasol o ran polisi, cyllid a deddfwriaeth.

Mae'r Comisiwn yn darparu cymorth helaeth o safon wedi'i deilwra i'r pwyllgorau. Mae llawer o wasanaethau'r Comisiwn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ddarpariaeth hon gan gynnwys cymorth clercio, gweithdrefnol, ymchwil, cyfryngau a chyfreithiol; gwasanaethau diogelwch ac ymwelwyr, cyfieithu ar y pryd a chyfieithu testun; creu cofnod air am air; TG a darlledu. Mae staff y Comisiwn yn cynorthwyo pwyllgorau mewn cyfarfodydd ac ymweliadau ledled Cymru a thu hwnt ac yn gwneud gwaith allgymorth ac ymgysylltu i ddenu pobl yn uniongyrchol i waith y Cynulliad. Mae'r Comisiwn hefyd yn darparu cymorth datblygu proffesiynol helaeth i Aelodau a'u staff i wella gwaith pwyllgorau.

Mae uchelgais y Llywydd, y Comisiwn a chadeiryddion pwyllgorau yn sylweddol – er enghraifft, galw cynyddol gan bwyllgorau am waith ymgysylltu ac allgymorth sy'n bwydo'n uniongyrchol i waith goruchwylio a chraffu deddfwriaethol a pholisi pwyllgorau; disgwyliadau llawer uwch o ran cyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu digidol eraill; blaenoriaethau ymgysylltu'r Llywydd ar gyfer y pumed tymor sy'n cynnwys datblygu ein gwasanaethau ymgysylltu ar-lein, sefydlu Senedd Ieuenctid, datblygu archif ar gyfer y Cynulliad; a'r uchelgeisiau a ddisgrifiwyd yn Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd y Comisiwn (Ionawr 2017). Mae ysgogiad ac argymhellion penodol pellach wedi'u hychwanegu gan **adroddiad y Tasglu Newyddion a Gwybodaeth Ddigidol**.

## Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi

Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi [TRS], o anghenraid, wedi mabwysiadu dull arloesol i recriwtio staff. Yn y gorffennol, bu'n anodd denu staff â'r lefel briodol o sgiliau a phrofiad ar gyfer y raddfa berthnasol. Yn gyffredinol, roedd yn well gan y rhai oedd yn meddu ar y sgiliau hynny weithio ar liwt eu hunain. Ar ôl methu â chael unrhyw ymgeiswyr addas ar gyfer swyddi cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd dros y ddau ymarfer recriwtio diwethaf, cynigiwyd cynlluniau hyfforddeion ac, wrth wneud hynny, llwyddwyd i recriwtio dau olygydd dan hyfforddiant a dau gyfieithydd ar y pryd dan hyfforddiant. Mae'r dull hwn yn caniatáu i TRS fuddsoddi mewn staff newydd na fyddent wedi cael eu penodi fel arall oherwydd diffyg sgiliau. Mae TRS yn defnyddio arbenigedd mewnol i ddarparu hyfforddiant yn y swydd am gyfnod o chwe i naw mis tan bod yr hyfforddeion yn cyrraedd y lefelau sgiliau angenrheidiol.

Cafodd y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Pumed Cynulliad ei basio ar 12 Gorffennaf 2017. Mae'r cynllun yn amlinellu'r gwasanaethau dwyieithog a ddarparwyd i Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth, i bobl Cymru ac i aelodau staff y Comisiwn. Mae gwaith ar y themâu ar gyfer gwella a nodwyd yn y cynllun ar gyfer y Pumed Cynulliad wedi cychwyn. Bydd gweithgor ar recriwtio yn gyfrifol am ystyried a gweithredu'r camau a nodwyd yn y cynllun erbyn haf 2018. Prif ffocws y thema recriwtio fydd cynyddu lefel sgiliau Cymraeg sylfaenol ar draws y sefydliad dros amser, gan adeiladu ar ethos dwyieithog presennol Comisiwn y Cynulliad. Bydd hyn yn cynnwys gweithredu dull lle bydd angen i bob swydd newydd a swydd wag ofyn am o leiaf lefel sylfaenol / cwrteisi o sgiliau Cymraeg. Bydd y gweithgor yn cytuno ar ddiffiniadau o lefelau sgiliau, yn seiliedig ar fodel Cymdeithas Profwyr Iaith yn Ewrop (ALTE) a gydnabyddir yn rhyngwladol, a gweithio gydag eraill i sicrhau bod cymorth a hyfforddiant priodol ar gael i baneli recriwtio ac ymgeiswyr er mwyn sicrhau y trosglwyddir yn ddidrafferth i'r system newydd.

## Gwneud yn fawr o'n hystâd

Er bod nifer o weithgareddau llwyddiannus wedi'u cynnal yn y Senedd sydd wedi galluogi ymwelwyr i ymgysylltu â busnes y Cynulliad, gwnaeth adolygiad diweddar i brosesau a strwythurau ddatgelu y byddai dull mwy strategol o fudd i'r defnydd o'r ystâd yn ei gyfanrwydd.

Cynigiodd yr adolygiad y dylai systemau, strwythurau a phrosesau diwygiedig fod ar waith er mwyn galluogi'r Senedd i fod yn senedd arloesol sy'n rhoi llais pobl Cymru wrth wraidd ei weithgareddau drwy waith ymgysylltu ystyriol ar ffurf gweithgareddau seneddol o'r radd flaenaf ar yr ystâd.

Er mwyn gwella canlyniadau yn unol â blaenoriaethau'r Comisiwn, mae'r gwaith o reoli gweithgareddau a gynhelir ar yr ystâd wedi symud i ddull mwy rhagweithiol, strategol ac ystyriol, sy'n galluogi'r ystâd i ddod yn offeryn allweddol i hyrwyddo'r Cynulliad, yn unol â'r strategaeth gyffredinol i ymgysylltu â'r cyhoedd.

Mae'r dull diwygiedig hwn i reoli gweithgareddau yn galluogi'r Comisiwn i:

- gynnwys y cyhoedd yng ngwaith y Cynulliad;
- grymuso'r cyhoedd i ddylanwadu ar agenda'r Cynulliad, gan eu hysbrydoli i gyd-berchnogi ei ddiben a'i gyflawniadau;
- darparu llwyfannau i gysylltu â chymunedau, etholaethau a rhanbarthau;
- caniatáu mynediad cyfartal.

Drwy well ddefnydd o'r ystâd i gyfleu negeseuon allweddol a rhaglen o arddangosiadau rhyngwladol parhaol, bydd gan bob ymwelydd â'r ystâd gyfle i fynd â gwybodaeth gartref gyda nhw am waith y Cynulliad, ei Aelodau a democratiaeth Cymru.

Cafodd gwasanaeth newydd, Gwasanaethau Ymwelwyr a Lleoliadau Seneddol, ei lansio yn ddiweddar ac mae'n cynnig un man cyswllt ar gyfer archebu lleoliadau ar yr ystâd. Mae hyn wedi cael gwared ar yr arfer o ddyblygu gweithgareddau, wedi creu prosesau gweinyddol effeithiol, wedi sicrhau eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau, wedi datblygu dull strategol ac ystyriol i ddefnyddio'r ystâd, wedi cysoni polisïau a chanllawiau yn ymwneud â defnyddio'r ystâd, wedi sicrhau gwell cyfathrebu rhwng yr holl rannau sy'n ymwneud â gweithgareddau'r ystâd ac wedi arbed arian. Bydd cyfleoedd i weithredu'n fwy effeithlon fyth yn parhau i gael eu harchwilio wrth i'r gwasanaeth newydd ddatblygu.



# 05. Cynlluniau buddsoddi

Mae’r cynlluniau ar gyfer buddsoddi yn 2018-19 yn seiliedig ar flaenoriaethau sefydliadol y Comisiwn, sef ymgysylltu mwy â phobl Cymru, cynyddu a gwella presenoldeb digidol y Cynulliad mewn ymateb i argymhellion y Tasglu Digidol drwy raglen FySenedd a sefydlu Senedd Ieuenctid i Gymru. Ar yr amod bod cyllid ar gael, mae'r Comisiwn hefyd yn parhau i fuddsoddi yn ei seilwaith ac ystâd ac mae wedi defnyddio cynlluniau gwaith blaen TGCh a Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau i nodi'r gwaith sy'n cael blaenoriaeth.

Mewn blynyddoedd diweddar, mae'r Comisiwn wedi gwneud darpariaeth o fewn ei gyllideb ar gyfer prosiectau buddsoddi disgwyliedig. Mae cyllid a ryddhawyd, er enghraifft trwy ddod â gwasanaeth TGCh yn fewnol, wedi darparu cronfa buddsoddi i'r Comisiwn. Defnyddiwyd y gronfa fuddsoddi i ariannu prosiectau blaenoriaeth.

Yn sgil buddsoddi mewn adnoddau staffio drwy gydol y Pumed Cynulliad hyd yma, yn wahanol i wariant TGCh neu EFM sydd ag effaith adnoddau parhaus, mae balans agoriadol y gronfa fuddsoddi wedi cael ei leihau'n sylweddol. Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, disgwylir y bydd yr arian yn cael ei ryddhau o gyllidebau staffio – naill ai o'r swyddi hynny sy'n wag ar ddechrau'r flwyddyn neu'r rhai fydd yn dod yn wag yn ystod y flwyddyn – a fydd yn ychwanegu at y gronfa. Amcangyfrifir y gallai'r arian hwn a ryddhawyd fod tua £800,000.

Yn hanesyddol, mae'r gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau hefyd wedi rhyddhau adnoddau heb eu defnyddio, sydd ar gael i'r Comisiwn fuddsoddi mewn gwasanaethau Aelodau neu wasanaethau eraill. Nid yw'n bosibl rhagfynegi'n gywir beth yw'r swm hwn a ailddefnyddiwyd. Byddai amcangyfrif darbodus, yn seiliedig ar dueddiadau hanesyddol, yn awgrymu y gallai £600,000 ddod ar gael.

Yn ogystal â'r blaenoriaethau a eglurwyd yn y ddogfen hyd yma, mae'r Comisiwn hefyd yn bwriadu buddsoddi mewn TGCh a Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau lle mae cwmpas ariannol i wneud hynny wrth i gyllid ddod ar gael. Mae'r meysydd gwariant canlynol wedi'u nodi fel rhai blaenoriaeth.

## FySenedd - Manteisio ar dechnoleg i drawsnewid darpariaeth gwasanaeth

FySenedd yw prif raglen y Comisiwn ar gyfer trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu i Aelodau a'r cyhoedd gan wneud gwybodaeth am fusnes y Cynulliad yn fwy hygyrch a chynnig profiad mwy deniadol i bawb drwy gydol y Pumed Cynulliad. Mae'r cynlluniau gwariant presennol yn cynnwys £290,000 o eitemau blaenoriaeth y bydd angen eu hariannu o bosibl yn ystod 2018-19.

Mae’r cynlluniau buddsoddi hyn yn cynnwys rhan gyntaf o brosiect tair blynedd i ddatblygu gwefan uchel ei pherfformiad a system rheoli cynnwys ardderchog; dyma oedd un o brif argymhellion y Tasglu Newyddion a Gwybodaeth Ddigidol a fu’n archwilio sut i ymgysylltu’n uniongyrchol â phobl Cymru ac mae’n elfen bwysig o’r Strategaeth Ymgysylltu â’r Cyhoedd y mae’r Comisiwn yn ei rhoi ar waith. Oherwydd maint a chymhlethdod y prosiect, mae angen cryn fuddsoddiad o ran amser ac arian dros nifer o flynyddoedd. Bydd y gwaith cwmpasu’r mynd rhagddo yn ystod 2017-18 a disgwylir i achos busnes gael ei gyflwyno yn haf 2018 yn seiliedig ar yr argymhellion ac y bydd y gost o roi’r prosiect ar waith yn rhan o gyllideb 2019-20.

Mae gwaith cwmpasu'n mynd rhagddo ynglŷn â'r elfennau eraill o raglen FySenedd y mae angen buddsoddi ynddynt. Mae'r rhain yn cynnwys gwella'r modd o gyhoeddi a rhannu papurau'r Cyfarfodydd Llawn a'r cyfarfodydd pwyllgor, y system ddeisebu, gwneud y prosesau ymgynghori a deddfu'n haws eu rheoli ac yn fwy hygyrch, gwella'r modd y caiff gwybodaeth ei harchifo a'i dosbarthu, a rheoli'r berthynas â chwsmeriaid. Drwy'r prosiectau hyn, gellir datblygu llawer o'r cynnwys a'r galluoedd sydd eu hangen i drawsnewid y wefan. Unwaith eto, roedd rheoli'r berthynas â'n cwsmeriaid yn faes pwysig i fuddsoddi ynddo yn ôl argymhellion y Tasglu "er mwyn i'r Cynulliad fedru meithrin perthynas hirdymor a chynnal deialog iach gyda'r rhai y mae'n eu gwasanaethu". Byddai'n galluogi'r Cynulliad i ymgysylltu'n fwy effeithlon ac effeithiol â rhagor o bobl mewn modd sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau data newydd.

Hefyd, fel rhan o raglen FySenedd, 2018-19 fydd blwyddyn gyntaf buddsoddiad y Cynulliad mewn partneriaeth â'r Llyfrgell Genedlaethol. Y nod yw creu archif cydlynol y gall y cyhoedd ei ddefnyddio i ddiogelu cofnodion y Cynulliad yn y tymor hir. Drwy'r bartneriaeth hon, bydd archif y Cynulliad yn symlach ac yn fwy diogel, bydd yn haws i'r cyhoedd ei ddefnyddio, gan gynnwys yr archif ar-lein, yn unol â'r hyn a ragwelwyd yn strategaeth y Comisiwn.

## Senedd Ieuenctid

Mae'r cynnig i sefydlu Senedd Ieuenctid i Gymru yn flaenoriaeth fel menter ymgysylltu â'r cyhoedd a nodwyd yn strategaeth Pumed Cynulliad y Comisiwn. Yn ystod 2018-19, clustnodwyd £100,000 i dalu am y gost o hyrwyddo a rhedeg ymgyrch etholiadol a sefydlu gwefan /platfform digidol lle y gall pobl ifanc gynnal trafodaethau. Bydd yr arian hwnnw hefyd yn talu am gostau teithio'r 60 Aelod o'r Senedd Ieuenctid yn ystod y flwyddyn.

## Gwella gwybodaeth a newyddion digidol i'r cyhoedd

Yn 2017, sefydlodd y Comisiwn Dasglu Newyddion a Gwybodaeth Ddigidol i roi cyngor ynghylch y dulliau a'r cyfleoedd gorau i'r Cynulliad ymgysylltu â phobl Cymru. Mae eu hargymhellion yn atgyfnerthu'r syniadau a amlinellir yn strategaeth y Comisiwn. Clustnodwyd cyllid i wella'r gallu i reoli cynnwys a hygyrchedd yr holl gynnwys ar-lein ac i ddatblygu cynhyrchion newydd fel pecynnau newyddion amlgyfrwng sy'n adlewyrchu busnes y Cynulliad mewn ffordd sy'n hygyrch ac yn ddifyr i'r cyhoedd.

## TGCh

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gynnal lefel briodol o fuddsoddiad mewn gwasanaethau TGCh a Darlledu er mwyn sicrhau bod systemau critigol, sy'n hanfodol i sicrhau y gall y Cynulliad weithio'n effeithiol ac effeithlon, eu cefnogi a'u datblygu. Mae'r Comisiwn eisoes wedi datblygu cynllun buddsoddi tair blynedd ar gyfer TGCh, sy'n nodi anghenion strategol a gweithredol ar gyfer buddsoddiad ac mae hyn yn caniatáu i'r IRB wneud penderfyniadau hysbys o ran blaenoriaethau.

Gan ganolbwyntio ar werth a gwella gwasanaeth yn barhaus, mae'r strategaeth TGCh yn symud y Cynulliad i wasanaethau cwmwl fel y platfform o ddewis, lle mae gwasanaethau o'r fath yn cynnig dewisiadau diogel ac economaidd eraill i seilwaith a rhaglenni a ddarperir o ganolfannau data y Comisiwn. Mae symud i Office365 wedi gwella hyblygrwydd a dewis yn sylweddol o ran sut mae defnyddwyr yn cael gafael ar systemau a gwybodaeth y Cynulliad ac mae mesurau seiber ddiogelwch gwell yn sicrhau bod y Comisiwn wedi'i amddiffyn yn effeithiol rhag y bygythiad cynyddol hwn.

Mae'r cynlluniau buddsoddi ar gyfer 2018/19 sydd wedi'u categoreiddio fel eitemau blaenoriaeth os bydd cyllid ar gael i'w gweld yn Atodiad 3.

## Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau (EFM)

Mae'r tîm EFM wedi datblygu cynllun gwaith 10 mlynedd i ddangos natur ac amseru y gwaith sydd angen ei wneud o safbwynt cynnal a chadw. Darperir cyllid ar gyfer gwaith cynnal a chadw arferol fel rhan o'r gyllideb sylfaenol blynyddol ar gyfer EFM. Fodd bynnag, mae gwaith a phrosiectau ychwanegol yn codi bob blwyddyn sy'n amodol ar achosion busnes er mwyn gwneud cais am gyllid.

Bydd y ffocws ar gyfer rheoli'r ystâd yn effeithiol fel ased allweddol yn parhau i gael ei lywio gan y blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun buddsoddi blaenoriaeth (treigl) hirdymor ar gyfer yr ystâd. Bydd y rhain yn cynnwys nifer o eitemau newydd a rhai yn cael eu hadnewyddu ar gyfer systemau sy'n agosáu at ddiwedd eu hoes weithredol fel lifft, rheoli mynediad i'r ystâd a'n seilwaith trydanol. Mae blaenoriaethau eraill yn cynnwys boeleri newydd a fydd, yn ogystal â darparu systemau mwy dibynadwy, yn darparu gwres ynni effeithlon ac effeithiol a fydd yn cyfrannu at ein hamcanion cynaliadwyedd.

Gallai'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau hefyd ystyried ymgymryd â gwaith sylfaenol i wella systemau gwresogi ac awyru yn rhan o Dŷ Hywel. Gallai swm dangosol o £89,000 gael ei ryddhau o'r Gronfa Fuddsoddi os caiff cyllid ei greu o gyllidebau eraill.

Mae cynlluniau buddsoddi EFM ar gyfer 2018/19 sy'n cael eu nodi'n eitemau i'w blaenoriaethu, os bydd cyllid ar gael, i'w gweld yn Atodiad 3.

Gallai'r Bwrdd Buddsoddi hefyd ystyried cyfleusterau postio a sganio oddi ar y safle os bydd swm o tua £100,000 ar gael.

# 06. Llywodraethu a rheolaeth ariannol

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ACARAC) yn cefnogi'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu yng nghyswllt eu cyfrifoldebau yn ymwneud â rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol. Fel rhan o'i rôl mae ganddo ddiddordeb cryf mewn amgylchedd rheoli ariannol mewnol ac yn ei oruchwylio. Mae ACARAC yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau cyfrifyddu a'r sefyllfa gyllidebol ac mae hefyd yn cymryd diddordeb brwd wrth glirio'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Mae aelodau'r Pwyllgor hefyd wedi goruchwylio a herio y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r system cyllid newydd.

Mae Archwilio Allanol a Mewnol yn darparu ffynonellau pwysig o sicrwydd i ACARAC a'r Swyddog Cyfrifyddu. Archwilydd Cyffredinol Cymru (AGW) yw archwilydd allanol y Comisiwn ac fe gaiff gymorth yn ei waith gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17 cyhoeddodd yr AGW farn ddiamod ar y datganiadau ariannol ac ni chodwyd unrhyw faterion yn yr Archwiliad o Adroddiad Datganiadau Ariannol neu'r Llythyr Rheoli a gwblhawyd gan dîm ymgysylltu SAC. Canfuwyd fod y systemau, rheolaethau a gweithdrefnau ariannol sy'n cefnogi'r gwaith o gynhyrchu cyfrifon yn gadarn a bod y polisïau cyfrifyddu wedi'u dilyn a'u cymhwyso'n briodol sy'n adlewyrchu'n gadarnhaol ar y gwaith a wnaed gan y Tîm Gwasanaethau Ariannol. Mae cryfder yr amgylchedd rheoli mewnol ariannol i'w weld ymhellach gan y gwaith a wnaed gan Archwilio Mewnol dros y ddwy flynedd ariannol diwethaf. Yn y cyfnod hwnnw, mae pob un o'r tri maes o waith y Gwasanaethau Ariannol wedi bod yn destun archwiliad: Rheolaethau Ariannol Allweddol; Rheoli Cyllidebol a Rheolaeth Ariannol a Gweinyddu Pensiynau. Cafodd y tri archwiliad sgorau cryf gyda dim ond mân argymhellion wedi'u nodi.

Mae'r Tîm Gwasanaethau Ariannol yn gweithio i sicrhau eu bod yn cyflawni nifer o dargedau ac yn adrodd ar eu perfformiad fel rhan o Adroddiad Perfformiad Corfforaethol Comisiwn y Cynulliad. Mae'r targedau hyn yn ffordd o ganolbwyntio a sicrhau bod perfformiad yn cael ei fonitro'n rheolaidd a bod ymgysylltiad yn cael ei gynnal rhwng y tîm cyllid canolog a'r sefydliad ehangach. Mae'r tîm wedi llwyddo yn gyson i gyflawni'r targedau ar feysydd tanwariant, talu cyflenwyr ac Aelodau a chyflawni targedau arbedion gwerth am arian. Caiff y targedau eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau yn heriol ac yn realistig a'u bod yn cael eu hail-raddnodi os bydd angen.

# 07. Penderfyniad y Bwrdd Taliadau

Corff annibynnol yw'r Bwrdd Taliadau sy'n penderfynu ar gyflog a thaliadau Aelodau’r Cynulliad a'u staff a'r system o gymorth ariannol sydd ei angen ar Aelodau i gyflawni eu cyfrifoldebau fel cynrychiolwyr etholedig.

Mae'r system yn darparu arian i dalu am dreuliau sy'n gysylltiedig â bod yn Aelod a/neu Ddeiliad Swydd, er enghraifft:

- rhedeg swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr;
- cyflogau a threuliau teithio eu staff cymorth;
- llety preswyl yng Nghaerdydd i Aelodau y mae eu cartref bellter sylweddol i ffwrdd (mae meini prawf cymhwysedd yn berthnasol); a
- chymorth i'r Grwpiau Plaid ac ymchwil polisi.

Ar ddechrau'r Cynulliad hwn, y cyflog sylfaenol ar gyfer Aelodau’r Cynulliad oedd £64,000 sydd i gynyddu bob blwyddyn yn unol ag enillion cyfartalog yng Nghymru fel y mesurir yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE). Ar gyfer 2017-18, arweiniodd hyn at gynnydd o 2.1 y cant a chymerwyd bod yr un cynnydd canrannol blynyddol yn gymwys ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn. Telir cyflogau ychwanegol i Aelodau sydd â swyddi a chyfrifoldebau ychwanegol, fel Gweinidogion, y Llywydd a chadeiryddion pwyllgorau.

Rhoddodd y Bwrdd Taliadau arian (hyd at £95,000 yr Aelod y flwyddyn) i Aelodau i gyflogi hyd at dri staff cyfwerth ag amser llawn i'w helpu ym mhob agwedd ar y swydd. Cynyddodd hyn 2.1 y cant yn 2017-18, ond mae disgwyl i'r Bwrdd Taliadau ddechrau adolygiad o gyflogau Staff Cymorth a'r ffordd y caniateir i Aelodau ddefnyddio eu cyllidebau staffio. Disgwylir i ganlyniadau'r adolygiad gael effaith ariannol yn 2018-19 ond maent yn annhebygol o adrodd tan ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol. Amcangyfrifwyd cynnydd o 3 y cant yng nghyllideb y staff cymorth ar gyfer 2018-19 er mwyn caniatáu ar gyfer cynnydd posibl dros yr hyn sy'n gymwys i gyflogau Aelodau.

Mae cyflogau Aelodau a'r dull ar gyfer unrhyw godiad cyflog wedi'u pennu ar gyfer gweddill pum mlynedd y Cynulliad hwn. Bydd y Bwrdd yn adolygu elfennau eraill o'i Benderfyniad yn flynyddol neu'n gyfnodol i sicrhau eu bod yn parhau'n briodol. Caiff cyllideb Costau Swyddfa ei hadolygu'n flynyddol a'i haddasu yn ôl yr angen. Er mwyn darparu ffigurau dangosol ar gyfer y blynyddoedd i ddod, mae codiad cyflog yn unol â chwyddiant ond wedi'i dybio (1.56 y cant).

Mae'r costau parhaus sy'n gysylltiedig â chyflogau Aelodau yn cynnwys Yswiriant Gwladol, Pensiwn a'r Ardoll Brentisiaeth a gyflwynwyd fel tâl o 0.5 y cant ar bob Cyflogres dros £3 miliwn (llai lwfans o £15,000) y flwyddyn o 2017-18.

Mae ffi canran y cynllun pensiwn wedi'i bennu gan actwari'r cynllun pensiwn. Yn achos y Comisiwn, darperir gwasanaethau actiwaraidd gan Adran Actwari'r Llywodraeth (GAD). Mae prisiad mis Ebrill 2017 o'r cynllun pensiwn wedi arwain at yr angen i gynyddu'r cyfraniad pensiwn o 15.6 y cant i 20.8 y cant rhag i'r gronfa fynd i sefyllfa o fod mewn diffyg. Mae hyn wedi cynyddu'r gost £240,000 ar gyfer y flwyddyn gan dybio y bydd Aelodau yn cael yr un codiad cyflog yn 2018-19 ag y gwnaethant yn 2017-18.

Mae’r gyllideb i ariannu Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer y Pumed Cynulliad i’w gweld yn Nhabl 9.

# 08. Cwmpas y gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20.13 y Cynulliad i helpu i lunio Cynnig y Gyllideb Flynyddol sy'n ofynnol yn ôl Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad yn cynnwys gofynion Comisiwn y Cynulliad o ran adnoddau ac arian ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2019.

Bydd Cynnig y Gyllideb yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion Gwasanaethau'r Aelodau a'r Cynulliad. Mae'r cynnig yn cynnwys uchafswm yr incwm (neu'r adnoddau cronnus) y gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau hynny ac at y dibenion hynny yn hytrach na'i fod yn cael ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru a'r arian parod y bydd angen ei gael o'r gronfa i dalu am y cyfansymiau net a ragwelir y bydd y Comisiwn yn gorfod talu amdanynt.

Nodir y gyllideb ar gyfer Comisiwn y Cynulliad yn 2018-19, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion hyn, isod yn Nhabl 14.

| **Tabl 1** | **2018-19**<br>**£'000** |
|---|---|
| Arian ar wahân i arian cronnus i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu Gwasanaethau'r Cynulliad i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad'); hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.<br><br>Arian ar wahân i arian cronnus i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau a gwariant mewn perthynas â darpariaeth Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. | £56,088<br>Tabl 3 |
| Arian cronnus i'w gadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru;<br><br>– o waredu asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall i'w defnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog, incwm rhent, rhoddion, grantiau, sieciau, ad-daliadau ac incwm o werthiannau masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd neu eraill i'w defnyddio ar gostau gweinyddol y Cynulliad | £300<br>Tabl 8 |
| **Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu am y symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu o fewn y flwyddyn mewn perthynas â'r gwasanaethau uchod ac at ddibenion ar wahân i dderbynebau y gellir eu cadw a TAW y gellir ei adennill** | **£52,038**<br>**Tabl 3** |

# Atodiad 1: Trosolwg o'r Gyllideb

| **Tabl 2**<br><br>**Pennawd y Gyllideb** | **Cyllideb 2017-18 £'000** | **Cyllideb 2018-19 £'000** | **Cyllideb 2019-20 £'000** | **Cyllideb 2020-21 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig (Tabl 4) | £21,458 | £23,401 | £24,985 | £24,647 |
| Costau adeiladau a chyfleusterau (Tabl 5) | £7,586 | £7,526 | £7,553 | £7,580 |
| Costau TGCh (Tabl 6) | £2,024 | £2,044 | £2,019 | £2,013 |
| Costau eraill (Tabl 7) | £2,150 | £1,318 | £1,321 | £1,318 |
| Hyfforddi a datblygu | £400 | £400 | £400 | £400 |
| Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth | £314 | £313 | £313 | £313 |
| Costau teithio a chynhaliaeth staff | £158 | £162 | £162 | £162 |
| Costau eraill Adnoddau Dynol | £123 | £123 | £123 | £123 |
| **Cyfanswm Gwariant Refeniw** | **£34,213** | **£35,287** | **£35,876** | **£36,556** |
| **Cyfanswm Incwm** (Tabl 8) | (£300) | (£300) | (£300) | (£300) |
| Gwariant Cyfalaf - creu asedau sefydlog | £500 | £500 | £500 | £500 |
| **Cyfanswm Adnoddau Gweithredol** | **£34,413** | **£35,487** | **£36,076** | **£36,756** |
| | | | | |
| Cyflogau'r Aelodau a'r costau cysylltiedig (Tabl 9) | £15,532 | £16,201 | £16,538 | £16,884 |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **£49,945** | **£51,688** | **£52,614** | **£53,640** |
| ***Cyllidebau wedi'u neilltuo*** | | | | |
| Gwariant yn ymwneud ag etholiadau | £0 | £0 | £0 | £500 |
| ***Cyllidebau nad ydynt yn arian parod*** | | | | |
| Costau dibrisiant ac amorteiddiad | £2,600 | £2,400 | £2,300 | £2,300 |
| Costau cyllido Pensiwn yr Aelodau | £1,200 | £2,000 | £2,000 | £2,000 |
| **Cyfanswm cyllidebau nad ydynt yn arian parod ac wedi'u neilltuo** | **£3,800** | **£4,400** | **£4,300** | **£4,800** |
| **Cyfanswm Cyllideb y Comisiwn** | **£53,745** | **£56,088** | **£56,914** | **£58,440** |

## Cysoni'r gofyniad adnoddau newydd i'r gofyniad tynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru;

| Tabl 3 | 2018-19<br>£'000 |
|---|---|
| Gofyniad refeniw net yr Aelodau | £16,201 |
| Gofyniad refeniw net y Comisiwn | £37,387 |
| Gofyniad cyfalaf net | £500 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | £2,000 |
| **Is-gyfanswm** | **£56,088** |
| | |
| **Addasiadau** | |
| Dibrisiant | (£2,400) |
| Newidiadau yn y ddarpariaeth | (£2,000) |
| Newidiadau o ran y dyledwyr a'r credydwyr | £350 |
| **Is-gyfanswm** | **(£4,050)** |
| | |
| **Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru** | **£52,038** |

# Atodiad 2: Manylion y Gyllideb

## Dadansoddiad o 'Gyflogau staff a chostau cysylltiedig'

| Tabl 4 | Cyllideb 2017-18 £000 | Cyllideb 2018-19 £000 | Cyllideb 2019-20 £000 | Cyllideb 2020-21 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Sefydlu staff (gan gynnwys dyfarniad cyflog 2018-19) | £21,208 | £22,978 | £23,658 | £24,389 |
| Ardoll prentisiaethau | £0 | £110 | £120 | £120 |
| Cynllunio capasiti | £250 | £313 | £207 | £138 |
| **Cyfanswm** | **£21,458** | **£23,401** | **£23,985** | **£24,647** |

## Dadansoddiad o 'Adeiladau a Chyfleusterau'

| Tabl 5 | Cyllideb 2017-18 £000 | Cyllideb 2018-19 £000 | Cyllideb 2019-20 £000 | Cyllideb 2020-21 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Rhent ar ardrethi gan gynnwys parcio | £4,265 | £4,291 | £4,318 | £4,345 |
| Cynnal a chadw a gwaith | £972 | £972 | £972 | £972 |
| Diogelwch | £684 | £694 | £694 | £694 |
| Cyfleustodau | £644 | £548 | £548 | £548 |
| Glanhau | £472 | £472 | £472 | £472 |
| Arlwyo | £334 | £334 | £334 | £334 |
| Rhentu llungopïwr | £155 | £155 | £155 | £155 |
| Dodrefn a ffitiadau | £60 | £60 | £60 | £60 |
| **Cyfanswm** | **£7,586** | **£7,526** | **£7,553** | **£7,580** |

| Tabl 6 | Cyllideb 2017-18 £000 | Cyllideb 2018-19 £000 | Cyllideb 2019-20 £000 | Cyllideb 2020-21 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau o dan gontract allanol, gan gynnwys ffonau | £588 | £638 | £613 | £613 |
| Darlledu | £505 | £496 | £496 | £490 |
| Trwyddedau a chynnal a chadw | £681 | £660 | £660 | £660 |
| Refeniw a chynnyrch treuliadwy | £250 | £250 | £250 | £250 |
| **Cyfanswm** | **£2,024** | **£2,044** | **£2,019** | **£2,013** |

## Dadansoddiad o 'Gostau eraill'

| Tabl 7 | Cyllideb 2017-18 £000 | Cyllideb 2018-19 £000 | Cyllideb 2019-20 £000 | Cyllideb 2020-21 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau iaith o dan gontract allanol | £263 | £293 | £293 | £293 |
| Argraffu, offer swyddfa a phostio | £270 | £263 | £263 | £263 |
| Yswiriant a chostau cyfreithiol | £115 | £115 | £115 | £115 |
| Cyhoeddiadau | £120 | £120 | £120 | £120 |
| Gwasanaethau cyfrifyddu a gwasanaethau ariannol | £44 | £44 | £44 | £44 |
| Archwilio | £90 | £82 | £82 | £82 |
| Cyngor arbenigol | £54 | £44 | £44 | £44 |
| Lletygarwch | £39 | £39 | £39 | £39 |
| Costau teithio a chynhaliaeth | £119 | £104 | £104 | £104 |
| Costau'n ymwneud â'r Bwrdd Taliadau | £42 | £62 | £62 | £62 |
| Fetio | £26 | £26 | £29 | £26 |
| Ymgynghori | £30 | £25 | £25 | £25 |
| Gwisgoedd swyddogol a dillad | £20 | £20 | £20 | £20 |
| Eitemau eraill <£15,000 | £68 | £80 | £80 | £80 |
| Y Gronfa Fuddsoddi | £850 | £0 | £0 | £0 |
| **Cyfanswm** | **£2,150** | **£1,318** | **£1,321** | **£1,318** |

## Dadansoddiad o 'Incwm'

| Tabl 8 | Cyllideb 2017-18 £'000 | Cyllideb 2018-19 £'000 | Cyllideb 2019-20 £'000 | Cyllideb 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwerthu nwyddau - Siop y Cynulliad | (£15) | (£15) | (£15) | (£15) |
| Adeiladau - rhent | (£50) | (£50) | (£50) | (£50) |
| Amrywiol | (£235) | (£235) | (£235) | (£235) |
| **Cyfanswm** | **(£300)** | **(£300)** | **(£300)** | **(£300)** |

## Dadansoddiad o 'Gyflogau'r Aelodau a chostau cysylltiedig'

| Tabl 9 | Cyllideb 2017-18 £'000 | Cyllideb 2018-19 £'000 | Cyllideb 2019-20 £'000 | Cyllideb 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau ac argostau'r Aelodau | £5,725 | £6,140 | £6,269 | £6,401 |
| Cyflogau ac argostau Staff Cymorth yr Aelodau | £8,110 | £8,365 | £8,545 | £8,729 |
| Lwfansau a chostau swyddfeydd | £1,697 | £1,696 | £1,724 | £1,754 |
| **Cyfanswm** | **£15,532** | **£16,201** | **£16,538** | **£16,884** |

# Atodiad 3: Blaenoriaethau Buddsoddi

## Crynodeb o'r cyllid tybiedig i'w ryddhau yn ystod 2018-19 a blaenoriaethau buddsoddi'r Comisiwn ar gyfer 2018-19

| Tabl 10 | £'000 |
|---|---|
| **Cyllid tybiedig a fydd ar gael o'r canlynol:** | |
| Cyllideb cyfalaf | £500 |
| Cyllideb gweithredol | £800 |
| Penderfyniad y Bwrdd Taliadau | £600 |
| **Cyfanswm tybiedig y cyllid i'w ryddhau yn ystod 2018-19** | **£1,900** |

| **2018-19 Blaenoriaethau Buddsoddi'r Comisiwn:** | | | |
|---|---|---|---|
| **Blaenoriaethau EFM** | | | £505 |
| Darnau sbâr hanfodol | Ar gyfer y lifftiau yn y Senedd a'r Pierhead | £99 | |
| Cylch oes hanfodol | Rheoli mynediad (yn holl adeiladau'r ystâd); adnewyddu mecanwaith y lifftiau yn yr atriwm, byrddau dosbarthu trydan | £280 | |
| Iechyd a diogelwch | Aerdymheru a gwelliannau ymarferol | £89 | |
| Cydymffurfio â gofynion statudol | Gwaith adfer systemau cludo a gosod trydanol | £37 | |
| **Cyfleusterau postio a sganio oddi ar y safle** | | | £100 |
| **Blaenoriaethau TGCh** | | | £619 |
| Diogelwch | Symud ffeiliau i'r cwmwl; seiberddiogelwch | £100 | |
| Gwasanaethau | Senedd TV; arwyddion digidol IPTV | £139 | |
| Cyfarpar | Adnewyddu cyfarpar sydd dros 7 mlwydd oed | £380 | |
| **Senedd Ieuenctid** | | | £100 |
| **Rhaglen Fy Senedd** | | | £290 |
| Paratoi ar gyfer gwefan newydd, gan gynnwys categoreiddio gwybodaeth a rheoli cysylltiadau cwsmeriaid | | £60 | |
| Partneriaeth archifo Llyfrgell Genedlaethol Cymru | | £20 | |
| Dulliau TGCh o hybu'r broses ddeddfu, casglu papurau pwyllgor/Cyfarfodydd Llawn a thystiolaeth, deisebau (blaenoriaethau i'w pennu) | | £210 | |
| **Gwella Newyddion Digidol a Gwybodaeth i'r Cyhoedd** | | | £300 |
| **Blaenoriaethau buddsoddi 2018-19** | | | **£1,914** |

# Atodiad 4: Geirfa

## Asedau Sefydlog

Eitemau a brynir sydd ag oes ddisgwyliedig sy'n hwy na blwyddyn at fudd busnes, fel tir, adeiladau a chyfarpar.

## Bloc Cymru

Arian bloc grant a gyfrifir gan ddefnyddio Fformiwla Barnett, y mae'r Senedd yn pleidleisio arno i'w roi i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar gyfer yr arian a ddaw i Gymru.

## Costau Refeniw / Rhedeg

Y gwariant presennol ar gostau rhedeg dyddiol, fel cyflogau staff a phrynu chynnyrch treuliadwy a gwasanaethau.

## Cronfa Gyfunol Cymru

Crëwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n gyfrif banc niwtral a gedwir gan y Tâl-feistr Cyffredinol. Dyma'r cyfrif y mae'r arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno yn cael ei dalu i mewn iddo i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## Cyfalaf

Gwariant sydd fel arfer yn arwain at ased sefydlog (e.e. adeilad, cyfarpar neu dir) y bwriedir iddynt fod o fudd i gyfnodau cyfrifo yn y dyfodol, neu wariant sy'n cynyddu capasiti, economi, effeithlonrwydd neu oes ased sefydlog sy'n bodoli eisoes.

## Cyllideb

Mae'n pennu'r adnoddau a'r arian parod y cynigir eu defnyddio yn y flwyddyn ariannol ddilynol a'r ffigurau mynegol ar gyfer y blynyddoedd ariannol wedi hynny.

## Darpariaethau

Mae darpariaeth yn rhwymedigaeth nad oes amserlen na swm penodol iddi. Caiff cost ei chydnabod yng Nghyfrif Adnoddau'r Comisiwn pan fydd rhwymedigaeth bresennol (cyfreithiol neu ddeongliadol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol, pan fydd yn debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth hon, a phan y gellir rhoi amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

## Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Deddf Senedd y DU sy'n diwygio Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn ei gwneud yn haws i bwerau pellach gael eu trosglwyddo iddo. Mae'r Ddeddf yn creu system lywodraethu sydd â gweithrediaeth ar wahân a ddaw o'r ddeddfwrfa ac sy'n atebol iddi.

## Dibrisiant

Mesur o'r defnydd neu'r gorddefnydd o ased sefydlog, neu leihad yn ei oes ddefnyddiol.

## Gwariant a reolir yn flynyddol (AME)

Dull o gategoreiddio gwariant a gedwir ar gyfer eitemau llai disgwyliadwy ac sy'n anos eu rheoli. Dim ond at y diben y cafodd ei neilltuo y gellir ei ddyrannu.

## Gwerth am arian

Y broses a ddefnyddir gan sefydliad ar gyfer gwerthuso ac asesu prosesau caffael, prosiectau a phrosesau mewn modd systematig i ennyn hyder ynghylch addasrwydd, effeithiolrwydd, gochelgarwch, safon a gwerth, ac os llwyddwyd i osgoi camgymeriadau a gwastraff arall, a fernir ar gyfer y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd.

## Termau real

Gwerth y gwariant sydd wedi'i addasu ar sail chwyddiant cyffredinol mewn prisiau. Mae'n galluogi cymariaethau o'r gwariant ar draws blynyddoedd i gael eu gwneud heb yr ystumiad sy'n cael ei beri gan newidiadau mewn prisiau.